

Mynediad Uned 22 – Siarad â ffrindiau am gadw'n heini

Nod: Ymarfer siarad â ffrindiau ac adolygu unedau 16-21 / *Practising speaking to friends and revising units 16-21.*

Geirfa

afon(ydd)	river(s)	menywod	women
hosan	sock	pont(ydd)	bridge(s)
menyw	woman		

cwpwrdd	cupboard	ffonau symudol	mobile phones
cypyrddau	cupboards	gwerth	worth
cwrs (cysiau)	course(s)	parti (partïon)	party (parties)
ffigwr (ffigyrau)	figure(s)	pentref(i)	village(s)
ffôn symudol	mobile phone		

dangos	to show	disgrifio	to describe
dilyn	to follow	rheoli	to manage

ail	second	llawn	full
arbennig	special	trydydd	third

dim byd	nothing	o gwbl	at all
erioed	never	rhwng	between
heb	without	rhyw (rhai)	some
neb	nobody		

Geiriau pwysig i fi

.....

.....

Gêm o gardiau

				
A	Sut bydd y tywydd yfory?	Faint o'r gloch wyt ti'n bwyta dy ginio di fel arfer?	Beth o't ti'n hoffi wneud pan o't ti'n blentyn?	Wyt ti'n nabod dy gymdogion di?
2	Beth wnest ti ddoe?	Ble byddi di'n mynd yfory?	Oes anifeiliaid anwes gyda ti?	Beth yw enw dy ffrind gorau di?
3	Beth yw enw dy fòs di?	Ble est ti ar wyliau ddiwetha?	Wyt ti'n dilyn chwaraeon ar y newyddion?	Oes i-pad gyda ti?
4	O ble rwyd ti'n dod yn wreiddiol.	Dweda rywbeth am dy waith di.	Sut roedd y tywydd ddoe?	Beth yw lliw dy ddrws ffrynt di?
5	Dweda rywbeth am un o dy ffrindiau di.	Beth wnest ti neithiwr?	Am faint o'r gloch wyt ti'n bwyta dy frecwast di?	Beth fyddi di'n wneud nos Sul?
6	Am faint o'r gloch mae dy gloc larwm di'n canu?	Beth yw dy enw di? (enw 1af)	Ble byddi di dydd Nadolig?	Ydy dy ddeintydd di'n siarad Cymraeg?
7	O't ti'n hoffi dringo coed pan o't ti'n blentyn?	Faint o'r gloch codaist ti dydd Sadwrn?	Wyt ti wedi byw mewn fflat?	Beth wyt ti'n hoffi ar Disney +?
8	Am faint o'r gloch wyt ti'n mynd i gysgu, fel arfer?	Ble est ti i'r ysgol?	Beth fyddi di'n wneud y penwythnos nesa?	Faint yw pris peint o gwrw mewn tafarn?
9	Wyt ti'n byw gyda'r teulu?	Ble rwyd ti'n byw?	Beth wnest ti y penwythnos diwetha?	Beth yw lliw dy 'sgidiau di?
10	Gyda phwy rwyd ti'n siarad Cymraeg?	Beth yw lliw dy lygaid di?	O ble mae dy deulu di'n dod?	Ble rwyd ti'n hoffi mynd am dro?
Jac	Fyddi di'n mynd ar wyliau y flwyddyn nesa?	Beth yw lliw gwallt y tiwtor?	Sut bydd y tywydd yn Siberia heno?	Pryd rwyd ti'n siarad Cymraeg?
Brenhines	Beth yw dy enw di? (enw llawn)	Beth fyddi di'n wneud y mis nesa?	Beth wnest ti neithiwr?	Ble rwyd ti'n siarad Cymraeg?
Brenin	Faint yw pris paned o goffi mewn caffi?	Sut bydd y tywydd yn y Sahara yfory?	Ble est ti ar dy wyliau diwetha di?	Beth wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser sbâr di?

Sgwrs 1 – Parkrun



- Chris: Bore da, sut wyt ti? Barod am y Parkrun?
- Jo: Haia. Wedi blino a dweud y gwir. Gobeithio bydda i'n teimlo'n well ar ôl rhedeg.
- Chris: Pam rwyd ti wedi blino? Noson fawr neithiwr?
- Jo: Nage. Mae'r ci yn dost felly ro'n i lan yn y nos gyda fe.
- Chris: O drueni. Beth sy'n bod?
- Jo: Dw i ddim yn gwybod. Bydd e wedi bwyta rhywbeth od eto, siŵr o fod. Y tro diwetha, roedd e wedi bwyta hosan!
- Chris: Wel does dim anifeiliaid anwes gyda fi felly cysgais i'n dda iawn.
- Jo: A ti? Wyt ti'n barod i redeg?
- Chris: Ydw. Dw i'n edrych ymlaen. Dw i'n gobeithio am PB heddiw.
- Jo: Pob lwc 'te. Bydda i'n hapus jyst i orffen heb gerdded y tro yma.
- *** *Chwiban + sain traed yn rhedeg* ***
- Jo: Ffiw! Roedd hynny'n anodd. Ro'n i'n well yr wythnos diwetha, ond dw i'n teimlo'n well nawr felly does dim ots gyda fi.
- Chris: Dw i'n teimlo'n dda hefyd. Ges i PB: tri deg tri munud felly dw i'n hapus iawn!
- Jo: O grêt. Da iawn ti. Dere, mae'n amser coffi. Fy nhro i i brynu.

Gyda phartner, rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

With a partner circle the correct answer.


1. Pa wyneb sy'n disgrifio Jo cyn y Parkrun?



2. Pa wyneb sy'n disgrifio Jo ar ôl y Parkrun?




3. Beth oedd wedi bwyta beth?




4. Sut byddan nhw'n dathlu?



5. Roedd Jo yn well yr wythnos diwetha.



6. Roedd Chris yn well yr wythnos diwetha.



Dych chi'n cofio?

Pwy sy'n siarad?	(RR Uned 2)
Beth sy'n bod?	(RR Uned 11)
Beth sy'n digwydd?	(Cymraeg dosbarth Uned 12)
Pwy sy'n gwneud y rhaglen?	(RR Uned 12)

Pwy sy'n gweithio heddiw?

Who is working today?

Gareth.

Pwy sy'n dod i'r briodas?

Who's coming to the wedding?

Pawb.

Pwy sy'n chwarae heno?

Who is playing tonight?

Wrecsam.

Pwy sy'n dysgu'r dosbarth?

Who is teaching the class?

Eleri Elis.

Pwy sy'n actio yn y ffilm?

Who is acting in the film?

Ioan Ifans.

Pwy sy'n agor y bowlïo?

Who is opening the bowling?

Bob Mills.

Beth sy'n bod?

What's the matter?

Dim byd.

Beth sy'n digwydd?

What's happening?

Dim byd.

Faint sy'n mynd?

How many are going?

Neb.

Faint sy'n chwarae?

How many are playing?

Saith.

Pa gwestiwn sy'n mynd gyda pha lun?

Pwy sy'n protestio?

Pwy sy'n rhedeg y marathon?

Pwy sy'n gwneud paned?


Pwy sy'n cael parti?

Beth sy'n bod?

Pwy sy'n siarad?

Pwy sy'n canu yn y cyngerdd?

Pwy sy'n chwarae'r gêm?



Pwy sy 'na?

Who is there?

Pwy sy ar y ffôn?

Who is on the phone?

Beth sy ar Sky Sports heno?

What is on Skype Sports tonight?

Pwy sy yn y tîm?

Who is in the team?

Faint sy yn y grŵp?

How many are in the group?

Sgwrs 2 – Ioga



- Jo: Fyddi di'n mynd i'r dosbarth ioga Cymraeg yr wythnos nesa?
- Chris: Dw i ddim yn siŵr. Pwy arall sy'n mynd?
- Jo: Dw i'n mynd, a Siân hefyd, dw i'n meddwl.
- Chris: Pryd mae e?
- Jo: Chwech o'r gloch, nos Iau.
- Chris: Ble mae e?
- Jo: Yn y gampfa fawr, yng nghanol y dre. Mae'n handi ar ôl y gwaith.
- Chris: Reit, efallai. Beth sy'n digwydd ar ôl y sesiwn?
- Jo: Byddwn ni'n mynd mas am pizza ar ôl y dosbarth ioga.
- Chris: O, wel bydda i'n dod 'te! Dw i'n lico pizza'n fawr iawn!
- Jo: Gaf i lifft, os gweli di'n dda? Mae fy nghar i yn y garej am wythnos.
- Chris: Cei, dim probs.
- Jo: Diolch. Bydda i'n cofrestru ti a fi yn y dosbarth ioga 'te. Hwyl!

Siaradwch gyda'ch partner.

Ble dych chi eisiau mynd? Wedyn, ysgrifennwch ddeialog newydd, fel Sgwrs 2, am y digwyddiad yna.

Where do you want to go? Then, write a new dialogue, like Sgwrs 2, about that event.

Gwranddo – Amserau a Phrisiau

Llenwch y grid:

Beth	Amser dechrau *Defnyddiwch rifau *Use numbers	Pris
Barbeciw		
Ras Rafftiau		
Sioe Ffasiynau		
Sioe Flodau		
Noson Karaoke		

Sgwrs 3 - Y Gemau Olympaidd

Jo: Wyt ti'n hoffi edrych ar y Gemau Olympaidd?

Chris: Ydw. Dw i'n hoffi'r Gemau Olympaidd yn fawr iawn iawn!

Jo: Do'n i ddim yn gwybod hynny. Dw i'n hoffi gwylio nhw hefyd.

Chris: Pa chwaraeon wyt ti'n hoffi?

Jo: Dw i wir yn lico'r triathlon. Pan dw i'n rhedeg yn y Parkrun dw i'n meddwl am ennill medal aur yn y Gemau Olympaidd.

Chris: Wyt ti wedi cystadlu mewn triathlon?

Jo: Ydw. Dw i wedi cystadlu ac enillais i, y tro cynta. Ond yr ail dro enillais i ddim, ond roedd e'n hwyl.

Chris: Ble rwyd ti'n ymarfer nofio, fel arfer?

Jo: Dw i'n hoffi nofio yn y môr!

Chris: Bois bach! Mae'n rhy oer! Dw i ddim yn hoffi nofio yn y môr o gwbl ond ro'n i'n hoffi nofio mewn pwll pan o'n i'n blentyn.

Jo: Bydda i'n rhedeg ar y traeth bore dydd Sadwrn. Wyt ti eisiau dod hefyd?

Chris: O dim diolch, bydda i ar y traeth, mewn ffordd. Bydda i'n gwylio'r pêl-foeli ar y traeth ar fy ffôn i ac yn bwyta brecwast mawr mewn caffi.



Beth yw'r ateb?

1.	Fyddi di'n cael picnic ym mis Awst?	Byddwn.
2.	Fydd hi'n wyntog yfory?	Byddan.
3.	Fyddan nhw'n cael gwaith cartre dros y Sul?	Bydd.
4.	Fyddwch chi yma yr wythnos nesa?	Byddan.
5.	Fydd y dosbarth yn edrych ar S4C dydd Sul?	Bydda.

Gwyllo

Gwrandewch ar Gwilym Bowen Rhys yn canu 'Tŷ Bach Twt' a llenwch y bylchau.

Mae dipyn o bach twt,

O bach twt, o bach twt.

Mae dipyn o bach twt,

A'r gwynt i'r bob

Hei di ho, di hei di hei di ho,

A'r gwynt i'r bob

A dipyn o gil y

O gil y , o gil y

A dipyn o gil y ,

Gael gweld y a'r tonnau.

Hei di ho, di hei di hei di ho,

Gael gweld y a'r tonnau.

Ac yna byddaf yn llon myd,

Yn llon myd, yn llon myd.

Ac yna byddaf yn llon myd

A'r i'r bob

Hei di ho, di hei di hei di ho,

A'r i'r bob

Hei di ho, di hei di hei di ho,

A'r i'r bob


Llyfrau Amdani

Dych chi nawr yn gallu darllen Ceffylau gan Fiona Collins. Dych chi'n gallu prynu'r llyfr mewn siop Gymraeg neu ar gwales.com. Dyma'r clawr a'r paragraff cyntaf.

March Arthur

Amser maith yn ôl...

Dyma'r brenin Arthur. Dyma geffyl y brenin Arthur. Llamrei ydy enw'r ceffyl. Mae o'n geffyl da. Mae o'n fawr. March ydy o – ceffyl cryf.



Robin Radio

a) Atebwch:

Pwy yw Mr Richards?

Faint fydd oed Anti Mair y mis nesa?

Beth mae Mr Richards eisiau drefnu?

b) Gwrandewch am:

Mae hi wrth ei bodd.
Dyw hi byth yn hwyr.
yma o hyd

She is delighted.
She is never late.
still here

c) Cyfieithwch:

She isn't here yet.

She will be very sad.

Here he is now.





1. *The use of **sy** will be fully explained at the next level (Sylfaen), but for the time being, learn that it follows **Pwy, Beth and Faint** with verbs, and prepositions:*

Pwy sy'n siarad?

Pwy sy wrth y drws?

Beth sy'n digwydd?

Beth sy ar y radio?

Faint sy'n mynd?

Faint sy yn y dosbarth?

2. **Cynta, ail, trydydd**

Cynta *always comes after the noun and mutates after singular feminine nouns:*

Y mab **cynta**

y ferch **gynta**

Ail and trydydd *always come before the noun. Ail (like dau and dwy) causes a treiglad meddal.*

ail gar

trydydd car

Syniad da!



Syniad da! Dilyn y chwaraeon yn Gymraeg

- Mae llawer o chwaraeon ar S4C. [Sport | S4C](#)
- Dych chi'n gallu darllen am ddeg arwr (*hero*) o Gymru yma:

[Arwyr Chwaraeon o Gymru / Sporting Heroes from Wales: Top 10 - Parallel.cymru: Bilingual Welsh digital magazine](#)

- Dilynwch y chwaraeon yn Gymraeg ar Drydar neu Instagram.

Trydar/Twitter ac Instagram [@s4cchwaraeon](#)

- Dilynwch y bêl-droed yma: [Gwefan swyddogol Cymdeithas Bêl-droed Cymru \(faw.cymru\)](#)
- Dilynwch y rygbi yma: [Undeb Rygbi Cymru | Cymru a Rhanbarthau | Hafan \(wru.wales\)](#)
- Dilynwch y bêl-rwyd yma: [Netball - Team Wales](#)